Amdanom ni...

Gweledigaeth a Gwerthoedd

Beth yw ein Gweledigaeth?

Mae Prifysgol Cymru yn bodoli i wasanaethu Cymru a'i phobl. Gwnaiff hyn yn y modd canlynol:

1. gweithio'n egniol i gynnal gradd Prifysgol Cymru a brand Prifysgol Cymru fel enghreifftiau byd-eang o ragoriaeth ac ansawdd

2. cefnogi a hyrwyddo Addysg Uwch (AU) Cymru a chyfrannu'n gadarnhaol ac yn sylweddol at ddelwedd brand a gwerth brand AU Cymru a Chymru'n gyffredinol

3. cydweithio â sefydliadau prifysgol Cymreig eraill a gydag eraill yng Nghymru, cefnogi a hyrwyddo mentrau strategol o fewn addysg uwch yng Nghymru

4. rhyngweithio â gweddill y byd, drwy ddarpariaeth academaidd gydweithredol a thrwy gysylltiadau a phartneriaethau deallusol a diwylliannol eraill

5. gweithredu fel catalydd a hyrwyddo cyfleoedd arloesi, ymchwil a'r economi

6. defnyddio ein safle wrth galon bywyd academaidd, deallusol a diwylliannol y genedl i ddatblygu, cefnogi a hybu mentrau yn y meysydd hyn

7. adeiladu ar ein llwyddiannau yn y gorffennol a'r presennol i sicrhau sefydliad cynaliadwy sy'n cyfoethogi bywyd cenedlaethol Cymru.

Beth yw ein Gwerthoedd?

Mae Prifysgol Cymru yn gweithio i wireddu ei gweledigaeth gan gynnal gwerthoedd craidd sef:

1. lles Cymru sydd wrth galon popeth a wnawn
2. rydym yn falch i gyflenwi rhagoriaeth ac ansawdd

3. rydym yn parchu eraill er mwyn i bawb allu cyfrannu yn y modd gorau bosibl

4. rydym wedi mabwysiadu datblygiad cynaliadwy fel egwyddor ganolog ar gyfer ei gweithgareddau

5. rydym yn ystyried, adolygu, adnewyddu ac arloesi'n barhaus er mwyn cadw'n berthnasol

6. rydym yn onest, yn annibynnol ac yn ddiduedd, yn agored a chydweithredol - ymddiriedaeth yw'r sylfaen.

Gwybodaeth Gyffredinol

A hithau wedi ei sefydlu drwy Siarter Frenhinol yn 1893, Prifysgol Cymru yw'r corff sy'n dyfarnu graddau i fyfyrwyr addysg uwch mewn nifer o sefydliadau ar draws Cymru.

Cafodd Prifysgol Cymru ei hailgyfansoddi ym mis Medi 2007, er mwyn gallu cyd-fynd â datblygiadau yn y system addysg uwch yng Nghymru a'r DU. Cyn y dyddiad hwnnw roedd wedi gweithredu dan system ffederal, gydag aelod sefydliadau ar draws Cymru. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor i ddiwygiadau eang i'w Siarter a'i Statudau, mae'r Brifysgol bellach yn sefyll fel endid annibynnol ochr yn ochr â'r sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru. Gall cyn aelod-sefydliadau sy'n dymuno dyfarnu graddau Prifysgol Cymru wneud hynny drwy gytundeb ffurfiol â'r Brifysgol. Y Brifysgol hefyd yw'r corff dyfarnu graddau ar gyfer sefydliadau addysg uwch eraill o fewn y Deyrnas Unedig a thramor, ac mae'n cynnal cysylltiadau clos â hwy. Mae'n dyfarnu tua 15,000 o raddau cyntaf a thros 4,000 o raddau uwch yn flynyddol.

Mae sefyllfa newydd y Brifysgol yn caniatáu iddi ganolbwyntio ar ei phrif swyddogaeth fel corf dyfarnu graddau ac yn cyflenwi gwasanaethau i'r sector addysg uwch yng Nghymru, a hefyd fel sefydliad cenedlaethol a all chwarae rhan gynyddol yn y gwaith o warchod a hyrwyddo economi, diwylliant ac iaith Cymru.

Am y tro cyntaf yn ei hanes, sy'n mynd yn ôl 117 o flynyddoedd, mae'r Brifysgol wedi creu ei chyfadran ei hun ac mae'n cyflogi staff academaidd i gyfnerthu a gweithredu ei chynlluniau. Pennaeth y Gyfadran yw'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu ac Uchafu) ac mae'n cynnwys tair Ysgol, pob un ohonynt dan arweiniad Deon. Cefnogir pob Deon gan Uwch Ddarlithwyr/Darlithwyr sy'n staff amser llawn yn y Brifysgol.